

Cofnodion cyfarfod rhyfeddol y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
Nos Lun, 26 o Orffennaf 2021 am 7:30yh trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Stephen Beach, Heather Williams, Christine Ellis a Mike van der Eijk

Gwahoddedigion: Y Cynghorwyr Jayne Mayers a Dyfan Jones (Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd), a Chynghorwyr Sir Emrys Wynne a Huw Hilditch Roberts

Hefyd yn bresennol: Eirwen Godden (Clerc Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd), Siân Clark (Clerc Cyngor Tref Rhuthun) a Marian Rees (Cyfieithydd).

29. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gavin Harris a Jim Bryan (Cyngor Tref Rhuthun), Osian Jones (Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd), a Chynghorydd Sir Bobby Feeley.

30. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

31. CROESO

Croesawodd y Cynghorydd Menna Jones gynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd yn gynnes i'r cyfarfod (ar gyfer eitem 4 yn unig) er mwyn ystyried ar y cyd y llwybr ar hyd Ffordd Llanfair/Wreccsam rhwng Rhuthun a Llanfair Dyffryn Clwyd. Gwerthfawrogwyd presenoldeb y Cynghorwyr Sir hefyd.

32. Ffordd Llanfair/Wreccsam

Bu i'r Aelodau ystyried cyflwr gwael y llwybr rhwng Rhuthun a Llanfair DC, pellter o 1.8km (1.10 milltir). Y llwybr yma oedd yr unig rodfa hyfyw rhwng Rhuthun a Llanfair. Mynegwyd pryderon cryf bod y llwybr, dros amser, wedi lleihau'n sylweddol oherwydd tyfiant glaswellt a gwrychoedd o ganlyniad i waith cynnal a chadw gwael.

Roedd y cyflwr presennol yn cyfyngu ar hygyrchedd y llwybr i gerddwyr heb fawr o gyfle i basio defnyddwyr eraill heblaw camu i'r ffordd (60mya). Roedd cyfyngiadau difrifol ar gerddwyr â phramiau neu gadeiriau olwyn. Roedd diogelwch cerddwyr a defnyddwyr yn hollbwysig ac roedd angen mynd i'r afael â chyflwr presennol y llwybr ar frys.

Roedd adroddiad, a baratowyd gan gynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Llanfair DC, yn cynnwys lluniau yn dangos cyflwr gwael y llwybr ac yn rhoi syniad o led posibl y llwybr.

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i'r llinell olwg o yrwyr sy'n gadael Jericho Lane a oedd wedi'i rwystro'n fawr gan wrychoedd sydd wedi gordyfu. Cafwyd cadarnhad mai'r Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am gynnal gwrychoedd cyn mis Medi, byddai'r cyfrifoldeb wedyn yn dychwelyd i'r tirlfeddiannwr.

Wrth gydnabod ymdrechion preswlydd lleol i glirio'r llwybr, y Cyngor Sir oedd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw.

Bu trafodaeth hefyd am yr angen i fynd i'r afael â chynnal a chadw llwybrau ac chyflwr palmantydd prif lwybrau eraill i'r dref. Mynegwyd pryderon am esgeulustod cyffredinol llwybrau ar y prif ffordd sy'n arwain i Ruthun a oedd yn rhwystro cerddwyr rhag eu defnyddio.

Rhannwyd pwyntiau allweddol o ohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gan Cynghorydd Sir Emrys Wynne am dorri gwrychoedd a glaswellt a chynnal a chadw llwybrau gan gynnwys ei ymateb i wahodd swyddogion Cyngor Sir Ddinbych i gerdded y llwybrau sy'n arwain i

Ruthun, gan gynnwys Ffordd Corwen.

Mynegwyd pryderon ynghylch cyflymder y traffig ar hyd y prif ffyrdd, yn enwedig ar Lon Fawr ynghyd â chyflwr y ffensys.

PENDERFYNWYD: (i) Bod llythyr ar y cyd gan Gyngor Cymuned Llanfair DC a Cyngor Tref Rhuthun i'w anfon at y Cyngor Sir ynghylch y llwybr ar hyd Ffordd Llanfair/Rhuthun yn gofyn am ymweliad brys ar y safle gan swyddogion y Cyngor Sir. (ii) Bod gohebiaeth yn cael ei anfon o Gyngor Tref Rhuthun at y Cyngor Sir ynghylch cynnal a chadw llwybrau eraill ar hyd y prif lwybrau i'r dref.

33. ARWYDDION CROESO

Rhannwyd ffotograffau yn dangos rhai o brif lwybrau'r porth i Ruthun. Dywedodd yr Aelodau fod angen ystyried diweddarau'r arwyddion 'Croeso i Ruthun' presennol a phriodoldeb lleoliadau presennol yr arwydd croeso e.e. ar Ffordd Dinbych. Ystyriwyd hefyd y nifer, mathau a lleoliad cyffredinol yr arwyddion yn y dref a'r cyffiniau a chytunwyd y byddai archwiliad o'r arwyddion presennol yn cael ei wneud.

Cydnabuwyd pwysigrwydd arwyddion da a chllir, yn enwedig i helpu denu ymwelwyr ac i hybu'r economi leol. Byddai canlyniad yr archwiliad arwyddion, ynghyd â gwybodaeth am gostau cysylltiedig ac opsiynau posibl, yn cael ei ystyried maes o law. Byddai cyllid posibl (e.e. y Gronfa Lefelu i Fyny) hefyd yn cael ei ymchwilio. Annogwyd i'r Aelodau'n nodi arwyddion trefi eraill i helpu i lywio'r broses. Nodwyd bod y Cyngor Sir eisoes wedi cynnal archwiliad arwyddion yn y dref tua 2015.

PENDERFYNWYD: (i) bod archwiliad o arwyddion cyfredol (gan gynnwys mathau a lleoliadau) yn y dref yn cael ei gynnal (ii) y dylid ymchwilio i ffynonellau cyllid posibl ar gyfer arwyddion, gan gynnwys y Gronfa Lefelu.

34. GWEDD

Roedd trafodaethau a gynhaliwyd yn gynharach yn y cyfarfod ynghylch diffyg cynnal a chadw llwybrau a chyffyrdd ar hyd y prif lwybrau i Ruthun hefyd yn llywio'r eitem hon ar yr agenda.

Cynhaliwyd trafodaethau cyffredinol ynghylch yr angen i ystyried nodau cyffredin ar gyfer prosiectau allweddol yn Rhuthun a chael gafaer ar unrhyw gyllid sydd ar gael o'r Gronfa Lefelu i Fyny. Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal rhwng y Cynghorwyr Sir a'r AS Lleol, David Jones, ar 9 Awst, fel rhan o'r broses. Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu cyn y cyfarfod ar 9 Awst rhwng y tri Chynghorydd Sir a chynrychiolwyr y Cyngor Tref i helpu i lywio'r broses o sefydlu nodau cyffredin a phrosiectau allweddol i lywio proses y Gronfa Lefelu.

Codwyd y diffyg gwybodaeth ynglŷn â 'Beth sydd ymlaen yn Rhuthun' fel mater.

Codwyd y diffyg gwybodaeth ynglŷn â 'Beth sydd ymlaen yn Rhuthun' fel mater. Awgrymwyd y gellid cysylltu ag archfarchnadoedd, a ddenodd lawer o ymwelwyr, i gynnal bwrdd gwybodaeth ar gyfer y dref a oedd hefyd yn cyfeirio at weithgareddau a llwybrau ar gael yn lleol.

PENDERFYNWYD: (i) Bod y mater o gynnal a chadw'r llwybrau ar hyd yr holl brif lwybrau i Ruthun yn cael ei gynnwys ar y Cyfarfod MAG nesaf. (ii) Bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng y tri Chynghorydd Sir a chynrychiolwyr y Cyngor Tref cyn cyfarfod â David Jones AS ar 9 Awst i ystyried nodau cyffredin a phrosiectau allweddol i lywio proses y Gronfa Lefelu.

35. GARDD GORSAF YR HEDDLU

Dywedodd y Cynghorydd Anne Roberts y byddai yn cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru yn lleol i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio Gardd yr Orsaf yr Heddlu yn gyhoeddus

36. HYGIRCHEDD/DIOGELWCH CERDDWYR

Nodwyd bod trafodaethau manwl ar hygyrchedd a diogelwch cerddwyr ar y prif fynedfeydd i'r dref wedi'u cynnal drwy gydol y cyfarfod. Byddai Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor Tref ym mis Medi.

37. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai nos Lun, 13 o Fedi 2021 am 7:00yh.*